**The Delivering Net Zero Project**

The Delivering Net Zero project has been formed by the 11 stock retained councils (Caerphilly, Cardiff, Carmarthenshire, Denbighshire, Flintshire, Isle of Anglesey, Pembrokeshire, Powys, Swansea, Vale of Glamorgan and Wrexham) and a small number of housing associations (Cartrefi Conwy, Coastal, United Welsh).

The participating social landlords have come together in the recognition that by working in partnership to develop a standardised specification for the next generation of high performing, off-site manufactured, low carbon homes (which become net zero whole life carbon through offsetting), they are likely, in the medium term, to achieve cost savings. The project also seeks to address concerns raised by manufacturers that delivering net zero homes is more expensive than it should be because each project is bespoke and opportunities to achieve economies of scale through repetition are lost.

The first stage of the project seeks to design a standardised fabric solution for participating social landlords, which can be applied to a number of standard pattern book designs. These standard designs will be tested and prototyped and achieve a system warranty. A quality assured manual for the manufacture and assembly of the homes will also be produced.

It is intended that a contract for the first stage of the project will be let in the summer of 2021, and it is anticipated that this stage of the project will run for 12-18 months.

The second stage of the project will be the letting of a contract(s) to supply the homes, direct with manufacturers. This will either be on the basis of one national contract, or a series of regional contracts.

During the first stage of the project the Project Manager will service meetings of the Project Steering Group and work closely with the successful supplier. In addition the project the Project Manager will work with each participating social landlord to:

- identify the volume of homes they intend to procure via this route over the next 5 years, to inform the stage 2 contract
- identify the means that they will use to build out sites (direct delivery or locally based SME's) and work with colleagues in Welsh Government, CITB to ensure that training is provided to enable homes to be constructed in accordance with the manual produced at the end of stage 1.

**Y Prosiect Cyflawni Sero Net**

Ffurfiwyd y prosiect Cyflawni Sero Net gan yr 11 cyngor sydd wedi cadw eu stoc dai (Caerffili, Caerdydd, Sir Gâr, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Sir Benfro, Powys, Abertawe, Bro Morgannwg a Wrecsam) a nifer bach o gymdeithasau tai (Cartrefi Conwy, Coastal, United Welsh).

Mae'r landlordiaid cymdeithasol sy'n cymryd rhan wedi dod at ei gilydd i gydnabod eu bod yn debygol o wneud arbedion cost yn y tymor canolig trwy weithio mewn partneriaeth i ddatblygu manyleb safonedig ar gyfer y genhedlaeth nesaf o gartrefi carbon isel sy'n perfformio'n dda ac sy'n cael eu gweithgynhyrchu oddi ar y safle (sy'n dod yn garbon oes gyfan sero net trwy wrthbwyso). Mae'r prosiect hefyd yn ceisio mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan weithgynhyrchwyr bod darparu cartrefi sero net yn ddrutach nag y dylent fod oherwydd bod pob prosiect yn bwrpasol a bod cyfleoedd i sicrhau arbedion maint trwy ailadrodd yn cael eu colli.

Mae cam cyntaf y prosiect yn ceisio cynllunio datrysiad ffabrig safonol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol sy'n cymryd rhan, y gellir eu defnyddio gyda nifer o ddyluniadau llyfrau patrwm safonol. Bydd y dyluniadau safonol hyn yn cael eu profi a'u prototeipio ac yn cyflawni gwarant system. Bydd llawlyfr sicrhau ansawdd ar gyfer gweithgynhyrchu a gosod y cartrefi hefyd yn cael ei lunio.

Bwriedir i gontract ar gyfer cam cyntaf y prosiect gael ei osod yn ystod haf 2021, a rhagwelir y bydd y cam hwn o'r prosiect yn rhedeg am 12-18 mis.

Ail gam y prosiect fydd gosod contract(au) i gyflenwi'r cartrefi, yn uniongyrchol gyda gweithgynhyrchwyr. Bydd hyn naill ai ar sail un contract cenedlaethol, neu gyfres o gontractau rhanbarthol.

Yn ystod cam cyntaf y prosiect bydd y Rheolwr Prosiect yn cynnal cyfarfodydd Grŵp Llywio'r Prosiect ac yn gweithio'n agos gyda'r cyflenwr llwyddiannus. Yn ogystal, bydd Rheolwr y Prosiect yn gweithio gyda phob landlord cymdeithasol sy'n cymryd rhan i:

- nodi nifer y cartrefi y maent yn bwriadu eu caffael trwy'r llwybr hwn dros y 5 mlynedd nesaf, er mwyn llywio contract cam 2
- nodi'r modd y byddant yn ei ddefnyddio i adeiladu safleoedd (darparu yn uniongyrchol neu BBaChau lleol) a gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, CITB i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i alluogi adeiladu cartrefi yn unol â'r llawlyfr a luniwyd ar ddiwedd cam 1.